AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

In Focus

Hydref 2022 - Rhifyn 19

# Cylchlythyr Hydref AWTTC

**Diweddariad chwarterol sy'n cynnwys y newyddion a'r mewnwelediadau diweddaraf gan ein tîm amlddisgyblaethol.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Gorffennaf – Medi 2022 ynghylch:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd a chydlynu allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Dadansoddi data presgripsiynu a datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor ar wenwynau 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWMSG yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2021–2022

Awst 2022

Dysgwch am yr holl brosiectau y mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi bod yn gweithio arnynt trwy gydol 2021-2022 yn eu hadroddiad blynyddol diweddaraf, wedi'i lunio gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC).

Ynddo rydym yn tynnu sylw at yr allbynnau o'r naw cyfarfod AWMSG rhithwir a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- 21 o feddyginiaethau wedi'u harfarnu (8 wedi'u cyflwyno llawn, 4 wedi'u cyflwyno'n rhannol a 9 estyniad trwydded pediatrig)
- 17 o Ddatganiadau Cyngor wedi'u cyhoeddi
- 14 o adnoddau optimeiddio meddyginiaethau wedi'u cyhoeddi
- 15 o ddangosyddion presgripsiynu cenedlaethol wedi'u monitro drwy gydol y flwyddyn
- 9 o Gynlluniau Mynediad i Gleifion Cymru wedi'u prosesu.


Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
Adroddiad Blynyddol 2021–2022
"Cefnogi presgripsiynu doeth i gael y canlyniadau gorau gan feddyginiaethau i gleifion yng Nghymru"
GIG CYMRU NHS WALES
Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

Darllenwch yr Adroddiad Blynyddol AWMSG 2021–2022 llawn
Darllenwch rifynnau blaenorol o Adroddiad Blynyddol AWMSG

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Cadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro yn ymweld ag AWTTC i ddarganfod mwy am eu gwaith arloesol

Awst 2022

Roedd AWTTC yn falch iawn o groesawu Charles Janczewski, Cadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro, i'w swyddfeydd i gwrdd â'r tîm a darganfod mwy am waith y sefydliad a'r pwyllgorau y mae'n eu cefnogi.

Cafodd Ruth Lang, Uwch Reolwr Cyswllt AWTTC a Tony Williams, Pennaeth PAMS (Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau) AWTTC gyfarfod gyda Mr Janczewski a Peter Welsh, Rheolwr Cyffredinol Ysbytai Llandochau a'r Barri yn eu swyddfeydd yng Nghanolfan Academaidd Routledge yn Ysbyty Llandochau.

"Roedd yn wych gallu rhannu gwaith pwysig AWTTC," meddai Ruth. "Rydym wedi cyflawni cymaint yn ein 20 mlynedd ers sefydlu AWMSG a byddwn yn dathlu'r hyn a gyflawnwyd yn ein cynhadledd ym mis Tachwedd. Rydym yn edrych ymlaen at weld beth a ddaw yn ystod yr 20 mlynedd nesaf."



AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff asesu technoleg iechyd rhyngwladol i hybu cydweithio ar heriau a rennir

Medi 2022

Bydd chwe chorff asesu technoleg iechyd (HTA) o dri chyfandir yn dod at ei gilydd i gydweithio ar amrywiaeth o bynciau fydd o fudd i bobl gael mynediad at ofal iechyd ar draws y byd.

Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diweddariadau i broses adolygu argymhellion AWMSG gan gynnwys cyhoeddi rhestr statig Newydd

Gorfennaf 2022

Mae newidiadau i'r ffordd y mae argymhellion arfarnu terfynol AWMSG yn cael eu hadolygu, gan gynnwys cyhoeddi rhestr 'statig', wedi eu gweithredu.

Cafodd y broses adolygu wedi'i diweddaru ei chymeradwyo gan Bwyllgor Llywio AWMSG a'i chefnogi gan Fforwm Diwydiant AWTTC.

Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# AWTTC a HTW yn adnewyddu eu haddewid i gydweithio

Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTCC)  a Thechnoleg Iechyd Cymru (HTW) wedi adnewyddu eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan addo parhau i gefnogi gwaith ei gilydd.

Mae'r ddau sefydliad wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers 2020, gan rannu arbenigedd a mynediad i rwydweithiau arbenigwyr.

Mae'r ddau sefydliad yn asesu technolegau iechyd; fodd bynnag, cylch gwaith AWTTC yw arfarnu meddyginiaethau, tra bod HTW yn canolbwyntio ar dechnolegau iechyd sydd ddim yn feddyginiaethau.

Drwy'r bartneriaeth, maen nhw wedi elwa ar adolygiadau gan gymheiriaid, a phrosesau sicrhau ansawdd i gefnogi eu swyddogaethau arfarnu.

Mae AWTTC yn darparu portffolio o wasanaethau ym meysydd therapiwteg a thocsicoleg, gan gynnwys arfarnu meddyginiaethau o ran technoleg iechyd. Mae ei staff yn gweithio ar asesiadau technoleg iechyd; optimeiddio meddyginiaethau, diogelwch meddyginiaethau a thocsicoleg; a dadansoddi data rhagnodi.

Mae gan y sefydliad gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau Technoleg Iechyd Cymru, gan gynnwys y Panel Arfarnu a'r Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt.

Meddai Karen Samuels, Pennaeth Arfarnu Technoleg Iechyd, Rheoli Meddyginiaethau a Chyfarwyddwr Rhaglen AWTTC: "Yn AWTTC, ein hethos yw gweithio'n rhagweithiol i ddarparu ystod o wasanaethau sy'n cefnogi'r defnydd gorau o feddyginiaethau i helpu cleifion yng Nghymru.

"Mae adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gan AWTTC a HTW yn estyniad o'n perthynas waith gadarn, ac yn gyfle delfrydol i ni weithio gyda'n gilydd sydd heb os, yn gwella ansawdd i gleifion Cymru."

Ychwanegodd Dr Susan Myles, Cyfarwyddwr HTW: "Mae ein partneriaeth gydag AWTTC wedi cyflwyno manteision pwysig i bob sefydliad, gan gynnwys y cyfle i rannu gwybodaeth ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y berthynas hon."

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# Cynhadledd 20 mlwyddiant AWMSG

Mediw 2022

Ym mis Tachwedd byddwn yn dathlu 20 mlynedd ers sefydlu AWMSG a phopeth a gyflawnwyd yn y cyfnod hwnnw.

Yn ymuno â ni yn y digwyddiad ar 17 Tachwedd bydd yr Athro Philip Routledge, a fu'n allweddol wrth sefydlu AWMSG, Gweinidog Iechyd Cymru Eluned Morgan, Dr Samantha Roberts, Prif Weithredwr y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), y Fonesig June Raine, Prif Weithredwr yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Dr Richard Torbett, Prif Weithredwr ABPI.

Cadwch lygad ar ein gwefan am fwy o wybodaeth am sut i gofrestru.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diwrnod hyfforddi AWMSG yn Stadiwm Dinas Caerdydd

Medi 2022

Roedd diwrnod hyfforddi AWMSG eleni a gynhaliwyd ar 21 Medi yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn cynnwys y cyfan – canu, dawnsio a chwarae'r iwcalili.

Iolo Doull, Cadeirydd AWMSG, oedd yn gyfrifol am agor y diwrnod cyn i Ian Govier o Academi Wales, sydd hefyd yn chwaraewr iwcalili dawnus, roi cyflwyniad angerddol a diddorol am Arweinyddiaeth ar Iâ: stori arweinyddiaeth 'y cyfnod clo' wrth annog mynychwyr i fentro i dir anghyfarwydd drwy ddawnsio a chanu.

Roedd y prynhawn yn cynnwys cyflwyniadau gan yr Athro Dyfrig Hughes ar Werth Penderfyniadau AWMSG a HTA, siaradodd Heidi Graham o ABPI ar Disclosure UK a chyflwynodd Kath Haines a Richard Boldero o WAPSU ar y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs).

Diwrnod arall llwyddiannus iawn o ddysgu.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Adroddiadau AWTTC ar Ddatganiadau Cyngor (SOAs) a gyhoeddwyd gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Medi 2022

Mae AWTTC wedi cynhyrchu adroddiadau yn edrych ar duedd a nifer yr SOAs a gyhoeddwyd dros gyfnod o bum mlynedd, ac yn archwilio'r effaith ar argaeledd meddyginiaethau yng Nghymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diwrnod Arfer Gorau Gorffennaf

Gorffennaf 2022

Cynhaliodd AWTTC Ddiwrnod Arfer Gorau rhithwir ar 19 Gorffennaf 2022. Digwyddiad ar-lein oedd hwn yn canolbwyntio ar 'Effaith amgylcheddol meddyginiaethau' a rhannu peth o'r gwaith optimeiddio meddyginiaethau rhagorol sy'n digwydd ledled Cymru i gefnogi strategaeth datgarboneiddio GIG Cymru. Mae fideos o bob un o'r cyflwyniadau ar y diwrnod ar gael yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn lansio tudalennau ymchwil Newydd

Awst 2022

Mae gwaith hanfodol aelodau ein tîm Ymchwil bellach ar gael ar ein gwefan, gan gyflwyno eu hastudiaethau o'r 16 mlynedd diwethaf. Gyda mwy na 350 o gyhoeddiadau, mae'n cynnwys rhestr lawn o erthyglau o gyfnodolion, llythyrau, posteri cynadleddau a chrynodebau posteri cyhoeddedig, cyflwyniadau mewn cynadleddau, llyfrau, adrannau llyfrau a chymrodoriaethau sydd wedi'u cynhyrchu gan AWTTC ers 2006.
Darllenwch ragor yma.


PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaetha

## AWTTC yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol IPFR 2021-2022

Medi 2022

Gan adrodd ar waith timau Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) ar draws Byrddau Iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ar gyfer cleifion yng Nghymru, lluniwyd yr adroddiad blynyddol diweddaraf gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC).

Darllenwch ragor yma.




PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaetha

## Cyngor meddyginiaethau Newydd ar gyfer GIG Cymru

Gorffennaf 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan y Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer 2 feddyginiaeth.

Darllenwch ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adnoddau addysgiadol tramadol – adolygiad 2021

Gorffennaf 2022

Datblygwyd yr adnoddau hyn yn gyntaf yn 2013 mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru. Mae'r diweddariad hwn wedi adolygu'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ac wedi diwygio'r wybodaeth yn yr adnoddau o fewn cyd-destun ehangach rheoli poen.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Gwneud diwygiadau bach i ganllawiau gwrthficrobaidd

Gorffennaf 2022

Gwnaed rhai diwygiadau i ganllawiau gwrthficrobaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda Grŵp Fferyllwyr Gwrthficrobaidd Cymru Gyfan, i ystyried canllawiau cenedlaethol a chanlyniadau treialon mwy diweddar:

- Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol
- Archwiliad Cenedlaethol CEEP – Canolbwyntio ar bresgripsiynu gwrthfiotigau
- Rheoli heintiau'r llwybr wrinol symptomatig rheolaidd ymhlith marched sy'n oedolion

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2021 – 2022: Adroddiadau chwarterol

Gorffennaf 2022

Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2021-2022 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, gan ganolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

- Poenliniarwyr mewn gofal sylfaenol
- Gwrthgeulyddion mewn ffibriliad atrïaidd
- Stiwardiaeth gwrthficrobaidd

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru – Cyhoeddi adroddiadau hyd at fis Mehefin 2022

Medi 2022

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Enwebiad ar gyfer staff AWTTC yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru

Gorffennaf 2022

Ymunodd Kath Haines a Wendy Casey o AWTTC â chynrychiolwyr o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) i gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Fferylliaeth Cymru a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Vale yn Hensol. Cawsant eu henwebu yn y categori Prosiect Technoleg Arloesol y Flwyddyn am eu gwaith ar y cyd ar weithredu cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch (ATMPs) gan ddefnyddio meddalwedd Cyffuriau Cost Uchel Blueteq.

Roedd yn noson wych ac, er na wnaethant ennill, mae'n gydnabyddiaeth wych o'r prosiect cydweithredol hwn.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## WNPU yn Mynychu Cyngre Tocsicoleg Glinigol Gogledd America, San Francisco, UDA

Medi 2022

Roedd y Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS) yn gallu cyflwyno tri phoster yn canolbwyntio ar ymholiadau am wenwynau ynghylch inswlin, gorddosau propranolol angheuol, a system rhybuddio cynnar ynghylch digwyddiadau mawr a ddatblygwyd gan NPIS; croesawyd yr holl bosteri a gwnaethant ennyn cryn ddiddordeb ymhlith cynrychiolwyr.

Darllen ragor yma.

Yellowcard Centre Wales

## Sioe deithiol y Ganolfan Cerdyn Melyn

Gorffennaf 2022

Mae YCC Cymru wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun Cerdyn Melyn ymhlith aelodau o'r cyhoedd. Roedd ganddynt stondinau gwybodaeth yn Morrisons Caerffili ac yn Sioe Sir Benfro.

Yn ystod y digwyddiadau hyn, cafodd YCC Cymru gyfle i siarad â thros 250 o bobl am bwysigrwydd rhoi gwybod i'r cynllun Cerdyn Melyn am adweithiau niweidiol a amheuir i gyffuriau.

Fe wnaethant hefyd gysylltu ag elusennau lleol a grwpiau cymorth gan gynnwys grŵp cymorth lwpws, elusen thyroid, Age Cymru ac Ambiwlans Sant Ioan. Bydd YCC Cymru yn parhau i fynychu digwyddiadau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun pwysig hwn.




AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Y cyn aelod lleyg Cliff Jones yn cymryd naid dros elusen

Gorffennaf 2022

Yn ddiweddar, cyflawnodd cyn aelod lleyg AWMSG, Cliff Jones, uchelgais oes o blymio o'r awyr.

Penderfynodd Cliff, a oedd aelod o'r pwyllgor tan yn ddiweddar, gyflawni'r naid dros elusen gan godi dros £2,000 ar gyfer Ymchwil Alzheimer y DU.

"Fe wnes i fwynhau," meddai Cliff. "Roedd yn brofiad anarferol ac yn anodd ei ddisgrifio. Mae'n frawychus am foment wrth i chi deithio 120mya, ond ar ôl i'r parasiwt agor ac rydych yn arnofio ar hyd arfordir Cymru, roedd yn brofiad pleserus.

"Mae hyn yn rhywbeth rydw i wedi bod eisiau ei wneud erioed ac, ar ôl cyrraedd 80 oed, mae'n bryd cwblhau'r rhestr o bethau hynny ac rydw i mor falch fy mod i wedi – ond rydw i eisoes yn meddwl am beth y gallaf ei wneud nesaf."



[Os hoffech gyfrannu at ymdrech codi arian Cliff, cliciwch yma]